

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Ile rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Deintyddfa
New Inn**

Dyddiad arolygiad: 22 Mawrth 2016

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copiâu o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	8
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	14
5.	Y Camau Nesaf.....	16
6.	Methodoleg	17
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ddeintyddfa New Inn yn 111 The Highway, New Inn, Pont-y-pŵl NP4 0PJ, ar 22 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Deintyddfa New Inn yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae Deintyddfa New Inn yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Pont-y-pŵl yng Ngwent. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Deintyddfa New Inn yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys un deintydd, un rheolwr practis, un nyrs ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Deintyddfa New Inn yn darparu gofal diogel ac effeithiol ac roeddent yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith i amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wedi dweud bod tîm y practis wedi eu croesawu ac roeddent yn fodlon ar y gofal yr oeddent wedi derbyn.
- Roedd staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd amgylchiadau cyffredinol y practis yn dda, yn weledol yn lân, ac yn daclus.
- Roedd y cyfleuster clinigol a ddefnyddiwyd gan y deintydd wedi ei gyflenwi'n dda ac mewn cyflwr da.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r practis ei wella:

- Dylid diweddarau polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd.
- Dylid diweddarau'r ffeil ymbelydredd i sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r defnydd o sganiau pelydr-X yn y practis.
- Dylai nodiadau cleifion fod yn fwy manwl.
- Dylid cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau ansawdd gofal cleifion.
- Gallai'r practis ddarparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd yr adborth a gawsom yn holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol, a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn yn y practis. Roedd gan y practis flwch sylwadau cleifion er mwyn asesu adborth gan gleifion. Gwnaethom argymhell y dylid diweddarau gwefan y practis i gynnwys oriau agor y practis a rhif cyswllt y tu allan i oriau. Gwnaethom argymhell hefyd bod y practis yn diweddarau'r weithdrefn gwyno i gynnwys manylion cyswllt AGIC a'i wneud yn eglur pwy all gleifion gysylltu â nhw.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn canfod safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

"Mae'r practis yn rhoi croeso mawr imi."

"Teimlaf fy mod yn derbyn digon o wybodaeth am fy nhriniaeth."

Gofal gydag urddas

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Mae'r practis yn fach ac felly gall trafodaethau cyfrinachol â chleifion ddigwydd yn yr ystafell driniaeth pe bai angen. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan y cleifion a wnaeth gwblhau'r holiaduron yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Nid oedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG na chleifion preifat wedi'u harddangos yn y practis. Roedd hyn yn golygu y byddai rhaid i gleifion ofyn am y wybodaeth hon. Dylid gwneud trefniadau felly i arddangos rhestrau prisiau addas.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos rhestrau prisiau am driniaeth y GIG a thriniaeth breifat.

Gofal amserol

Ceisiodd y practis sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu'n brydlon. Dywedwyd wrthym fod system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac y gallai cleifion

drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi o ran cael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd y cleifion hynny a oedd wedi cael profiad o oedi mai dim ond o bryd i'w gilydd roedd hyn neu nad oedd rhaid iddynt aros yn hir.

Gwelwyd manylion oriau'r practis a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau yn y practis. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Gwnaethom argymhell y dylid gwneud yr oriau agor a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau yn weladwy o du allan i'r practis fel bod cleifion yn gallu gweld sut i gael mynediad at ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau. Gwnaethom argymhell hefyd y dylid ychwanegu'r manylion hyn i wefan y practis fel ffordd arall o wneud y wybodaeth hon ar gael i gleifion.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r practis arddangos ei oriau agor a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau fel eu bod yn weladwy i gleifion o du allan i'r practis.

Dylai'r practis ddiweddarau ei wefan i gynnwys oriau agor y practis a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau.

Cadw'n iach

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a oedd wedi cwblhau holiadur wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Gwnaethom sylwi yr oedd rhai taflenni gwybodaeth i gleifion am driniaethau, megis triniaeth mewnblianiad deintyddol a sianel y gwreiddyn, yn yr ystafell aros. Gwnaethom argymhell bod y practis yn ystyried darparu casgliad o wybodaeth hyrwyddo iechyd, megis ymwybyddiaeth o ganser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu, a gwybodaeth am sut y gallai cleifion, gan gynnwys plant, wella iechyd eu cegau. Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn cynorthwyo wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Gofal unigol

Trwy drafodaethau â'r staff ar ddiwrnod yr arolygiad, daethom i'r casgliad bod y practis wedi cydnabod amrywiaeth ei gleifion ac wedi ystyried ei gyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol.

Nid oes gan y practis fynediad addas i ddefnyddwyr cadair olwyn, na chwaith i gleifion sydd ag anawsterau symudedd. Fe'n hysbyswyd gan staff bod cleifion a

chanddynt yr anawsterau hyn yn cael eu cyfeirio at eu chwaer-bractis yn y Fenni.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i siarad gyda staff am unrhyw broblemau neu bryderon. Gwelsom fod y practis wedi rhoi system ar waith yn ddiweddar er mwyn casglu adborth cleifion yn rheolaidd drwy ddefnyddio blwch sylwadau cleifion fel ffordd o fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Dywedodd y staff wrthym eu bod am edrych ar yr adborth hwn bob mis a chasglu'r data. Byddai'r canlyniadau wedyn yn cael eu defnyddio i wella'r gwasanaeth. Gwnaethom awgrymu hefyd y dylid cofnodi a monitro unrhyw gwynion ar lafar i weld a oes themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg.

Roedd gan y practis bolisi/gweithdrefn ar waith er mwyn i'r holl gleifion godi pryderon (cwynion). Roedd y ddogfen hon wedi'i harddangos yn yr ystafell aros. Mae angen ychwanegu manylion cyswllt AGIC i'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion preifat. Dywedodd staff wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gŵyn ysgrifenedig.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn/polisi cwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:

- ***Mae manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys.***
- ***Mae'r weithdrefn gwyno'n eglur ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol i gleifion gysylltu â nhw, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG.***

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Yn gyffredinol, gwnaethom ganfod bod y trefniadau er mwyn gwarchod staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn yn ddigonol. Roeddem yn fodlon bod yr offer radiograffig yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Roedd yr ystafell driniaeth a ddefnyddiwyd gan y deintydd mewn cyflwr da ac wedi'i chyfarparu'n briodol.

Gwnaethom edrych ar sampl fach o gofnodion cleifion a chanfod nifer o feysydd i'w gwella.

Gofal diogel

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y cywasgydd yn cael ei archwilio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a dywedwyd wrthym fod gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn cael ei gasglu gan y cyngor. Roedd gwastraff yn cael ei drin yn briodol yn y practis. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, ac wedi'i gynnal yn dda.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) wedi'u cwblhau yn y gorffennol. Rydym wedi argymhell y dylai'r practis gael cyngor ynghylch profion dyfeisiau cludadwy o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chymryd camau gweithredu priodol i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach y practis yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Yr hyn mae angen ei wella.

Rhaid i'r practis gael cyngor o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch profion dyfeisiadau cludadwy a chymryd camau gweithredu priodol i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol

hwn. Gwelsom dystysgrifau archwilio ar gyfer yr awtoclafau,¹ a oedd yn dangos eu bod wedi cael eu profi i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn, ac roedd rhaglen gynnal ddyddiol wedi ei chyflawni yn unol â chanllawiau.

Roedd ystafell ddadheintio benodedig yn y practis, ond nid oedd sinc ymolchi dwylo penodol yn yr ystafell ac roedd yr ystafell yn garpedog. Roedd cadair feddal a chot wedi cael eu gadael yn yr ystafell ond cafwyd gwared ar y rhain ar ddiwrnod yr arolygiad.

Cawsom ein hysbysu gan berchennog y practis bod rhaglen uwchraddio ar gyfer yr ystafell ddadheintio wrthi'n cael ei hystyried yn rhan o'u cynllun gwella. Gwnaethom argymhell pan fyddant yn gwneud y gwelliannau hyn y byddant yn cynnwys disodli'r carped â llawr sy'n hawdd ei lanhau, rhoi dau sinc ar wahân a sinc ymolchi dwylo yn yr ystafell, ac ystyried dulliau glanhau uwchsonig cyn sterileiddio. Yn ychwanegol, rhaid i'r practis sicrhau bod y system ddadheintio bresennol yn diwallu'r canllawiau a wnaed o fewn Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.²

Yr hyn mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y trefniadau dadheintio presennol ac yn y dyfodol yn diwallu canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd digon o offer ar gael a chawsant i gyd eu storio'n briodol a'u dyddio fel bod staff yn gwybod bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio ar gyfer triniaethau'r cleifion. Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis. Cawsant eu cadw mewn modd priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). Gwnaeth perchennog y practis ein hysbysu bod y meddyginiaethau brys a'r offer yn cael eu gwirio'n fisol i sicrhau eu bod o fewn eu dyddiad ac yn addas i'w defnyddio. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis wirio'r offer a ddefnyddiwyd mewn achosion brys o leiaf unwaith yr wythnos, yn unol â'r canllawiau a

¹ Siambr bwysedd yw awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy ddefnyddio stêm dirlawn o bwysedd uchel.

² Mae dogfen [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 \(Diwygiad 1\)](#) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU), a diweddarau eu llyfrau cofnodi er mwyn adlewyrchu hyn.

Yr hyn mae angen ei wella

Sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar offer a ddefnyddir mewn achosion brys o leiaf unwaith yr wythnos yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).

Roedd y practis wedi sefydlu polisi dadebru a gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i wneud dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd staff yr oeddem wedi cyfweld yn ymwybodol o'u rolau yn ystod argyfwng meddygol. Y deintydd oedd y person cymorth cyntaf a enwebwyd, ond nid oedd tystysgrif cymorth cyntaf ddiweddaredig ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r practis yn gweithredu ar sail rhan amser a gall rhai aelodau o staff fod yn y practis tra bod y deintydd yn gweithio yn y chwaer-bractis yn y Fenni. Gwnaethom argymhell bod un o'r aelodau o staff hyn yn gwneud hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn dod yn berson cymorth cyntaf enwebedig. Dylai'r practis geisio cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gadarnhau p'un a yw'r trefniadau ar gyfer cymorth cyntaf yn briodol.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion agored i niwed. Gwelsom bolisi amddiffyn plant a pholisi ar gyfer diogelu oedolion agored i niwed. Dylai'r ddau gael eu llofnodi a'u dyddio i ddangos eu bod yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd rhai o'r staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed (POVA). Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu bod yr holl staff yn cael eu cynnwys pan fydd y sesiynau hyfforddi nesaf yn cael eu cynnal. Nid oedd cofnodion hyfforddiant rheolwr y practis ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Dylai copïau o gofnodion hyfforddiant pob aelod o staff fod ar gael fel y gall AGIC eu harolygu.

Gwelsom ddogfennau oedd yn nodi bod y peiriannau pelydr-X wedi'u gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Yn ogystal â hyn, roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â chymryd radiograffau wedi cwblhau hyfforddiant o ran hynny. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Nid oedd llythyr hysbysu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w hysbysu bod y practis yn defnyddio offer radiograffig ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Rhoddodd y deintydd sicrwydd inni yr oedd hyn wedi ei wneud flynyddoedd yn ôl; fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ysgrifenedig ac yn cadw copi yn y practis i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999.

Roedd gan y practis ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ond roedd yn rhaid i hon gynnwys mwy o fanylder a hefyd enw'r cynghorydd diogelwch ymbelydredd.

Yr hyn mae angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am y defnydd o offer radiograffig yn y practis a chadw copi o'r hysbysiad yn y practis.

Rhaid i'r practis ddiweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol.

Gofal effeithiol

Nid oedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu gwneud i sicrhau bod y practis yn darparu gofal cyson o ansawdd uchel i'w gleifion. Gwnaethom argymhell bod archwiliad rheoli heintiau (roedd copi'n bresennol yn y ffeil bolisi ond nid oedd wedi'i gwblhau), archwiliad dadheintio ac archwiliad sicrwydd ansawdd ar gyfer ansawdd delweddau radiograffig yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod y deintydd yn cwblhau arolwg sicrwydd ansawdd y GIG yn flynyddol ac wedi mynychu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer cynnal adolygiad gan gymheiriaid nac i staff gynnal archwiliadau gyda'i gilydd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu o adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau yn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r practis gweithredu gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau ar y cyd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

Roedd tair ystafell driniaeth yn y practis ond dim ond un oedd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd yr ystafell driniaeth a ddefnyddiwyd gan y deintydd mewn cyflwr da ac yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol. Dywedwyd wrthym fod yr ail ystafell driniaeth i'w defnyddio gan yr hylenydd

rhan amser pan fydd hi'n dechrau ei swydd ym mis Mai 2016. Gwelsom fod rhai o ddreiriau'r uned wedi torri yn yr ail ystafell driniaeth. Dywedwyd wrthym gan reolwr y practis eu bod am ddisodli'r unedau i sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn barod i'w defnyddio cyn i'r hylenydd ymuno â'r staff. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis hysbysu AGIC pan oedd y newidiadau hyn wedi cael eu gwneud. Defnyddiwyd y drydedd ystafell driniaeth fel storfa ac roedd awtoclaf arall yn yr ystafell a allai gael ei ddefnyddio mewn argyfwng yn ôl staff.

Yr hyn mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr ail ystafell driniaeth o'r safon sy'n ofynnol gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 cyn iddi gael ei defnyddio ar gyfer triniaethau i gleifion.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion yn y practis. Ar y cyfan, gwelsom fod angen gwella'r cofnodion mewn rhai meysydd:

- Rhaid cofnodi hanes cymdeithasol.
- Dylid cynnig gwybodaeth am roi'r gorau i ysmegu os yw'r claf yn ysmegu a dylid cofnodi hyn yn y nodiadau.
- Rhaid diweddarau hanes meddygol ysgrifenedig yn ystod pob ymweliad.
- Mae angen cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg.
- Dylid rhoi cynlluniau triniaeth ysgrifenedig i'r claf ar gyfer pob cwrs o driniaeth.
- Dylid cofnodi caniatâd parhaus y claf yn ystod pob ymweliad.

Yr hyn mae angen ei wella

Rhaid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'n rheolaidd:

- ***Caniatâd parhaus cleifion***
- ***Hanes meddygol ysgrifenedig wedi'i ddiweddarau***
- ***Cynlluniau triniaeth ysgrifenedig***
- ***Hanes cymdeithasol***

- ***Sgrinio ar gyfer canser y geg.***

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei reoli gan y deintydd a rheolwr y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw wedi ymroi i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Gwelsom fod angen rhai gwelliannau i'r polisiau a'r gweithdrefnau a welwyd yn y practis. Roedd y practis yn fach iawn ac nid oedd cyfarfodydd ffurfiol nac arfarniadau staff yn cael eu cynnal. Gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r practis yn gweithredu ar sail rhan amser gyda'r deintydd yn treulio ychydig o amser yn y chwaer-bractis yn y Fenni. Roedd gan y practis dîm bach o staff, ac felly roedd cyfathrebu rhwng staff a'r deintydd yn digwydd yn rheolaidd, ar sail anffurfiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn codi unrhyw bryderon gyda'r deintydd. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i gael cyfarfodydd staff ffurfiol dwywaith y flwyddyn ac i gymryd cofnodion a nodi canlyniadau.

Gwelsom esiempl o gofnodion i ddangos bod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd gan y practis raglen ymsefydlu ffurfiol, ac fe'n hysbyswyd y bydd yn cael ei defnyddio petai unrhyw staff asiantaeth neu staff newydd yn y practis. Fodd bynnag, roedd staff y practis wedi bod yn eu swyddi ers blynyddoedd lawer.

Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau staff yn cael eu cynnal. Mae arfarniadau blynyddol i staff yn bwysig er mwyn sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir, ac er mwyn nodi unrhyw anghenion hyfforddi. Gwnaethom argymhell bod y practis yn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal arfarniadau staff blynyddol.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r holl staff, gan gynnwys y deintydd, gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o sicrhau'r parhad yn ansawdd y gofal a ddarperir.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd y deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd ei dystysgrif cofrestru wedi'i harddangos yn y practis.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer y practis, a gwelsom fod angen adolygu rhai. Roedd angen llofnodi a dyddio llawer ohonynt ac roedd angen personoli rhai i'r practis. Gwnaethom ganfod bod angen y gwelliannau canlynol:

- Roedd angen arwyddo a dyddio'r polisi diogelu data, y polisi diogelwch data, y polisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion, a pholisiau amddiffyn plant ac oedolion er mwyn dangos eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.
- Bu'n rhaid personoli'r polisi diogelu data ar gyfer y practis.
- Roedd angen arwyddo'r polisi rheoli heintiau.
- Nid oedd y polisi amddiffyn rhag ymbelydredd wedi'i gwblhau.

O ystyried nifer y gwelliannau sydd eu hangen i'r polisiau a'r gweithdrefnau, gwnaethom argymhell bod y practis yn sicrhau yr oedd trefniadau rheoli digonol fel bod y dogfennau hyn yn gallu cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau mewn ffordd amserol. Mae hyn yn agwedd bwysig o danategu diogelwch y gofal a ddarperir ac i warchod iechyd, diogelwch a lles y cleifion a staff.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau rheoli digonol ac effeithiol ar waith ar gyfer adolygu a diweddarau'r holl bolisiau a gweithdrefnau'n rheolaidd.

5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Neintyddfa New Inn yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawniadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008³ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.⁴ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

³ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan yn berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Deintyddfa New Inn

Dyddiad yr arolygiad: 22 Mawrth 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
Ansawdd Profiad y Claf					
5	Dylai'r practis arddangos rhestrau prisiau am driniaeth y GIG a thriniaeth breifat. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2.4]	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 4.2			
7	Dylai'r practis arddangos ei oriau agor a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau fel eu bod yn weladwy i gleifion o du allan i'r practis. Dylai'r practis ddiweddarau ei wefan i gynnwys oriau agor y practis a'r rhif cyswllt y tu allan i oriau.	Safonau lechyd a Gofal Safon 4.2			

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2.3.9]				
7	<p>Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r weithdrefn/polisi cwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys. • Mae'r weithdrefn gwyno yn glir ynglŷn â'r broses a'r sefydliadau perthnasol y gall cleifion gysylltu â nhw yn dibynnu ar b'un a ydynt yn derbyn triniaeth breifat neu driniaeth y GIG. <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5.1]</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru)</p> <p>Rheoliad 15 (4) (a);</p> <p>Y Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 6.3</p>			
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
8	<p>Dylai'r practis geisio cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch profion dyfeisiadau cludadwy (PAT) a chymryd camau gweithredu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.</p>	<p>Y Safonau Iechyd a Gofal</p> <p>Safon 2.9</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	[Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989]				
9	Rhaid i'r practis sicrhau bod y trefniadau dadheintio presennol ac yn y dyfodol yn diwallu canllawiau Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 1.5.]	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 2.4			
9	Sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal ar offer argyfwng o leiaf unwaith yr wythnos yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6; Cyngor Dadebru'r DU (DU) – Safonau Ansawdd ar gyfer Ymarfer a Hyfforddiant Adfywio Cardio-pwlmonaidd: Rhestr Offer Gofal Deintyddol Sylfaenol]	Y Safonau lechyd a Gofal Safonau 2.6, 2.9			
10	Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i	Y Safonau lechyd a Gofal			

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	<p>niwed.</p> <p>Dylai copïau o gofnodion hyfforddiant pob aelod o staff fod ar gael fel y gall AGIC eu harolygu.</p> <p>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.1, 6.6, 8.5]</p>	Safon 2.7			
11	<p>Rhaid i'r practis hysbysu'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch ynghylch y defnydd o offer radiograffig yn y practis a chadw copi o'r hysbysiad yn y practis.</p> <p>Mae'n rhaid i'r practis ddiweddarau'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd i sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth a'r ddogfennaeth sy'n ofynnol.</p> <p>[Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000]</p>	<p>Safonau lechyd a Gofal</p> <p>Safonau 2.1 a 2.9</p>			
11	Dylai'r practis gweithredu gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiadau	Y Safonau lechyd a Gofal			

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	gan gymheiriaid ac archwiliadau rheolaidd, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.	Safonau 3.1, 3.3			
11	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr ail ystafell driniaeth o'r safon sy'n ofynnol gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 cyn iddi gael ei defnyddio ar gyfer triniaethau i gleifion.	Y Safonau Iechyd a Gofal Safon 2.4			
12	<p>Rhaid cynnal cofnodion cleifion yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw cofnodion cleifion, gan gynnwys cofnodi'n gyson:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caniatâd parhaus cleifion • Hanes meddygol ysgrifenedig wedi'i ddiweddarau • Cynlluniau triniaeth ysgrifenedig • Hanes cymdeithasol • Sgrinio ar gyfer canser y geg. 	Y Safonau Iechyd a Gofal Safon 3.5			

Rhif y dudalen	Yr hyn mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Graddfa amser
	[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 2.3, 4.1]				
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
13	Dylai'r holl staff, gan gynnwys y deintydd, gael arfarniadau rheolaidd fel ffordd o sicrhau parhad yn ansawdd y gofal a ddarperir.	Y Safonau lechyd a Gofal Safon 7.1			
14	Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau digonol ac effeithiol ar waith ar gyfer adolygu a diweddarau'r holl bolisiau a gweithdrefnau yn rheolaidd. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6.6]	Y Safonau lechyd a Gofal Safonau 2.1, 7.1			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):.....

Teitl:

Dyddiad:.....